

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mai 8fed 2012 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Arwel Davies (Cadeirydd), Geraint Jones, Jean Roberts, Euros Puw, Gwilym Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams, Geraint Davies, Gwynedd Jones a Rhys Richards.

Cyfarfod Blynyddol.

Etholiadau Cyngorau Cymuned – 3/5/12.

Derbyniwyd copi o'r rhybudd yn datgan bod y cynghorwyr presennol wedi eu hail hethol yn ddiwrthwynebiad i'r Cyngor.

Ethol cadeirydd ac is-gadeirydd.

Yn dilyn trafodaeth cytunodd Arwel Davies i barhau fel cadeirydd am flwyddyn arall a chytunwyd i ddewis is-gadeirydd yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

Cyfrifon 2011-12

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2011-12 gan y cler, a chafwyd hwy yn gywir.

Asesiad Risg a Rheoliadau Mewnol.

Cytunwyd bod yr asesiad risg a'r system rheoliadau mewnol presennol yn gywir.

Cyfarfod Misol.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Llythyrau diolch.

Derbyniwyd llythyrau yn diolch am y cyfraniadau ariannol a ddosbarthwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth gan Eisteddfod Talybont, Cylch Meithrin/ Ti a Fi Maesywaen, Ysgol Y Parc, Neuadd Y Parc, Sioe Ardal Maesywaen, Urdd Gobaith Cymru Cylch Penllyn, CFFI Meirionnydd, Ambiwllans Awyr Cymru, Tŷ'r Eos a Chantref.

Ysgol Y Parc.

Derbyniwyd llythyr yn diolch i'r Cyngor am eu hymateb i'r 'Rhybudd Statudol' i gau Ysgol y Parc.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn

i) Copi o gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 19/3/12 a'r 16/4/12.

b) Cyngor Gwynedd

i) Rhaglen Waith Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Ailosod giât mochyn ac arwyddbost ar lwybr Moel Bodrenig ac amnewid giatiaau mochyn a chanfydd gyda giatiaau hunan caeedig, 2 bont droed newydd ac arwyddbost yn Arenig.

c) Un Llais Cymru.

i) Copi diweddaraf y Llais.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-

NP5/72/183A - Adeiladu adeilad amaethyddol. Cefn Bodig, Parc.

Cytunwyd i gefnogi'r cais.

Derbyniwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-

NP5/72/220 – Adeiladu estyniad. 3 Tai'n Rhos, Parc.

Materion Ariannol.

Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £1500.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Partneriaeth Penllyn (Cyfraniad tuag at y costau gweinyddol)

Un Llais Cymru (Tal Aelodaeth)

Yswiriant.

Gan fod y cytundeb gyda'r cwmni presennol yn dod i ben roedd y clerc wedi gwneud ymholiadau ac wedi derbyn 3 phris ar gyfer yr yswiriant. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylid derbyn pris Zurich a chytuno i aros gyda hwy am y 3 mlynedd nesaf i ddiogelu'r pris.

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Lyfrau Llafar Cymru, Tŷ'r Eos a NSARDA. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Unrhyw Fater Arall

Gwasanaeth casglu ysbwriel ac ail-gylchu.

Roedd cwynion pellach am y gwasanaeth ail-gylchu, y tro yma yn ardal Rhydychaf a Llidiardau. Adroddodd y clerc eu bod wedi derbyn cadarnhad bod y cwynion blaenorol wedi cael eu pasio'n mlaen i'r Uwch Reolwr Uned Darparu Fwrdeistrefol yng Nghaernarfon. Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion diweddaraf ymlaen iddo hefyd.